# Dameg yr Heuwr



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn y wers hon rydyn ni'n edrych ar ddameg adroddodd Iesu am heuwr. Mae'r ddameg hon i'w gweld mewn tri darn Beiblaidd: Mathew 13:1-23, Marc 4:1-20, a Luc 8:4-15.
Dyma rai o'n prif bwyntiau:

- Rhaid i'n calonnau ymateb i Air Duw.
- Gallwn ofyn am help i ddeall y Beibl.
- Mae'n rhaid i ni rannu gwirionedd Duw ag eraill.

## Canllaw Gwers

Dechreuwch wers yr wythnos hon drwy greu pedwar cae gyda'ch plentyn. I wneud hyn, bydd angen pedwar cynhwysydd plastig neu hambyrddau hadau arnoch. Llenwch bob cynhwysydd gyda haen o bridd ac yna dilynwch y camau yn y ddameg.

1. Creu llwybr ar draws y maes. Cael eich plentyn i gamu ar y pridd i'w gywasgu a'i wneud yn galed.
2. Gorchuddio'r cae mewn creigiau
3. Dod o hyd i chwyn a brigau i'w gosod yn y cae
4. Gadael y pridd yn edrych yn neis ac yn lân.

Rhowch hadau i'ch pentyn a gofyn iddyn nhw pa gae fyddai'r gorau i blannu'r hadau ynddo.
Atgoffwch eich plentyn mai stori mae Iesu yn ei dysgu i helpu pobl ddeall gwirioneddau pwysig yw hi. Yn y ddameg hon, roedd Iesu eisiau i'r bobl ddeall effeithiau Gair Duw a'i ddysgeidiaeth ar eu calonnau.
Darllenwch y ddameg o Feibl eich plant ac adolygu'r caeau rydych chi wedi eu creu wrth fynd ymlaen.
Chwaraewch gêm wrando fel 'Mae Simon Yn Dweud'. Siaradwch am sut mae'n bwysig inni wrando'n ofalus ac ufuddhau a gwneud pethau iawn.
Siaradwch am ffyrdd rydyn ni'n ymateb i'r hyn mae pobl yn ei ddweud wrthon ni. Er enghraifft, efallai bydd eich plentyn yn ceisio dweud rhywbeth pwysig wrthych chi pan fyddwch chi'n brysur, a dydych chi ddim wir yn rhoi sylw iddo. Gofynnwch iddyn nhw sut mae hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo, ymddiheuro a'u hatgoffa bod yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthych chi yn bwysig iawn.
Rhannwch sut y daeth mwy a mwy o bobl i wrando ar ddysgeidiaeth Iesu, ond nid oedd gan lawer ohonyn nhw'r galon iawn i wrando arno ac ufuddhau iddo.
Darllenwch ail ran y darn lle mae Iesu'n egluro'r ddameg. Dangoswch sut nad oedd y disgyblion yn deall ei hystyr felly gofynnon nhw i Iesu ei hesbonio. Atgoffwch eich plentyn sut mae Duw yn gwybod bod gennym lawer i'w ddysgu ac efallai na fyddwn ni'n deall popeth yn y Beibl. Pan na fyddwn ni'n deall rhywbeth, gallwn ni weddïo a gofyn i Dduw ein helpu ni i'w ddeall. Meddyliwch am bobl y gallen ni ofyn iddyn nhw ein helpu ni i ddeall y Beibl.
Rhannwch sut yr aeth yr hadau a laniodd ar bridd da ymlaen i gynhyrchu cynhaeaf mawr. Torrwch domato, melon dŵr neu ffrwyth arall gyda hadau y tu mewn iddyn nhw a chyfri ‘r hadau gyda'ch plentyn. Esboniwch sut mae had yn cynhyrchu planhigyn arall sydd yn ei dro yn creu llawer o ffrwythau a llawer mwy o hadau. Meddyliwch am sut mae Duw eisiau inni rannu Ei wirioneddau ag eraill ac i blannu hadau iddo. Meddyliwch am ffyrdd y gallwn ni wneud hyn.

© 2023 truewaykids.com



Yn olaf, syrthiodd rhai hadau ar bridd da.

Tyfon nhw'n dda a chynhyrchu cynhaeaf mawr.

Dywedodd Iesu ein bod ni fel y mathau hyn o bridd, a bod yr had fel Gair Duw.

Yn union fel mae'r had yn tyfu mewn pridd da, gall ffyrdd Duw dyfu yn ein calonnau.






# Dameg yr Heuwr

Un diwrnod, eisteddodd Iesu mewn cwch i ddysgu'r bobl.

Dywedodd stori wrthyn nhw am ffermwr aeth allan i hau.

Gwasgarodd y ffermwr yr had o amgylch ei gae. Syrthiodd yr hadau ar bedwar math o bridd.



Disgynnodd yr hadau cyntaf ar lwybr lle roedd pobl yn cerdded.


Roedd yr adar yn hapus i'w gweld.

Roedden nhw'n hedfan i lawr cyn gynted â phosib ac yn bwyta'r holl hadau.

Parhaodd y ffermwr i hau o amgylch ei gae.

Glaniodd yr hadau yma ar bridd creigiog.





Dechreuon nhw dyfu'n gyflym, ond roedd yr haul yn rhy boeth. Bu farw'r planhigion am nad oedd ganddynt wreiddiau i ddod o hyd i ddŵr.

Syrthiodd hadau eraill ymhlith y chwyn a'r drain.

Tyfodd y chwyn yn gynt na'r planhion gan rwystro'r haul rhag eu cyrraedd.

Ni all planhigion dyfu heb haul.

# Gêmau a Gweithgareddau

## Adeiladu bwgan brain

Gallwch adeiladu bwgan brain ar gyfer tu mewn neu du allan. Chwiliwch am hen ddillad o gwmpas eich cartref. Stwffiwch nhw efo hen bapur neu wellt. Ar gyfer yr wyneb gallech ddefnyddio plât papur, balŵn neu wyneb wedi'i stwffio. Soniwch am sut wnaeth yr adar ddwyn yr hadau ar y llwybr.





## Garddio

Un o'r ffyrdd gorau o ddeall y ddameg hon yw drwy wneud rhywfaint o arddio gyda'ch plant. Mae garddio gyda phlant yn eu galluogi i ddefnyddio'u synhwyrau i gyd ac yn offeryn dysgu gwych heb iddynt  hyd yn oed sylweddoli. Dangosir hefyd ei fod yn helpu plant i fwyta'n iach. Ar gyfer gwers yr wythnos hon, plannwch rai hadau, pigo ac adnabod rhai chwyn, a sôn pam mae rhai planhigion yn tyfu mewn rhai mannau.

## Planhigyn yn y pridd da

Marciwch bedwar sgwâr ar y ddaear. Labelwch bob sgwâr i gyd-fynd â'r pridd  sy yn y ddameg. Rhowch fagaid o had i bob plentyn a'i gael i'w daflu i'r pridd da. Dim ond pan fydd yr hedyn yn glanio yn y pridd da y sgorir pwyntiau.



© 2023 truewaykids.com

# Cylchwch yr eitemau mae angen ar y ffermwr i blannu hadau




© 2023 truewaykids.com

# Nodwch saith gwahaniaeth







© 2023 truewaykids.com


# Cyfrifwch yr hadau



© 2023 truewaykids.com







Gludwch yr hadau mewn pridd da



© 2023 truewaykids.com


# Platiau pridd da




## Yr hyn sydd ei angen arnoch:

2 blat papur
Paent a brwshys
Glud
Templed hadau
Siswrn


## Beth i'w wneud:



Peintiwch hanner wyneb isaf un plât papur yn frown a thu mewn i blât papur arall yn las. Gadewch iddyn nhw sychu.




Torrwch y plât papur brown yn ei hanner a'i gludo i'r plât glas.



Torrwch hadau allan o'r templed. Ysgrifennwch adnodau cof o'r Beibl arnyn nhw a phlanwch nhw yn y pridd.


© 2023 truewaykids.com






© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos ‘You Tube’ i’w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Dameg yr Heuwr - Stori o’r Beibl i blant
https://youtu.be/pJ8_pVHxjao
The B.I.B.L.E.
https://youtu.be/Wg582srC7cg
Looking At My Heart
https://youtu.be/AS0Dgv-iJPo
Sow The Word
https://www.kidssundayschool.com/preschool/songs/sow-the-word



# Amser Gweddi

Diolch i Dduw am ei Air. Gofynnwch iddo eich helpu i wrando’n dda a gwneud y pethau mae’n eu dweud.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ddeall y Beibl.

# Wythnos Nesaf

Dameg y weddw oedd yn gwrthod rhaoi’r gorau iddi - Luc 18:1-8

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com